**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mawrth 2012**

**LLEOLIAD PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR**

**Adroddiad gan Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau am argymhellion y Panel Gweithredol mewn perthynas â lleoliadau'r Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr sydd ar ôl unwaith y bydd peiriant Wrecsam wedi ei dynnu allan o wasanaeth (gan nodi fod angen penderfyniad ar leoliad y tri pheiriant erbyn 31ain Mawrth 2012). Gofynnir i'r Aelodau gytuno naill ai i argymhelliad y Panel Gweithredol neu i leoliadau gwahanol.

## Y Cefndir

2 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18fed Hydref 2010, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu 30 munud fel safon amser cyrraedd gan beiriant o'r fath. Roedd y penderfyniad yn seiliedig ar friffiau helaeth yng Ngweithgor y Cynllun Risg, y Panel Gweithredol, ac ar adroddiad cynhwysfawr ar gyfer cyfarfod yr Awdurdod ei hun.

3 Bydd yr Aelodau'n cofio cyngor y Prif Swyddog Tân y gallai'r Awdurdod, o fabwysiadu safon o'r fath, gwrdd â'i ymrwymiadau gyda 3 pheiriant yn hytrach na'r 4 sydd mewn gwasanaeth ar hyn o bryd.

4 Bydd yr Aelodau'n cofio hefyd fod y peiriant sydd yn Wrecsam am ddod i ddiwedd ei oes ar ôl Mawrth 2012, ac mai cyngor y Prif Swyddog Tân oedd adolygu'r ddarpariaeth, fel y gwnaed yn 2002 a 2006, oherwydd bod costau uchel yn gysylltiedig â phrynu, cynnal a chadw a hyfforddi mewn perthynas â pheiriannau o'r fath.

**Gwybodaeth**

5 Yng nghyfarfod y Panel Gweithredol ar 6$^{ed}$ Chwefror 2012, derbyniodd yr Aelodau friffiad yn ogystal â'r adroddiad ar ffurf tabl (Atodiad FRA1) ac, yn dilyn trafodaeth helaeth, penderfynwyd o 6 phleidlais i 3 wneud argymhelliad i'r Awdurdod llawn fod y 3 pheiriant sydd ar ôl yn cael eu lleoli ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam. Mae'r darn perthnasol o gofnodion drafft y cyfarfod ar gael fel Atodiad FRA2.

6 Mae argymhellion y Panel Gweithredol yn seiliedig ar yr ystyriaethau canlynol gyda chyngor gan y Prif Swyddog Tân a'r Clerc ac mai'r argymhelliad hwn a ystyriwyd i fod yr opsiwn gyda'r lleiaf o risg i Ogledd Cymru fel set o gymunedau:-

7 Mae'r ardal sydd o fewn dalgylch peiriant Wrecsam yn eithafion dwyreiniol ardal GTAGC, ac ni fyddai'n dod o fewn y safon cyrraedd 30 munud pe byddid yn tynnu'r peiriant oddi yno. Nid yw Gwasanaeth Tân ac Achub Swydd Gaer wedi gallu dod i gytundeb ffurfiol i ddarparu'r gofal hwn o Gaer.

8 Er bod modd cyrraedd tref a risgiau Bangor o fewn y safon 30 munud pe byddid yn tynnu'r peiriant allan o Fangor (y peiriant mwyaf gorllewinol yn ardal GTAGC), nid felly y byddai gydag ardaloedd Ynys Môn a Chaernarfon, sy'n dod o fewn dalgylch Bangor ar hyn o bryd. Mae ardal Ynys Môn yn cynnwys Porthladd Caergybi a'r cyfleuster niwclear yn Wylfa A.

9 Gellir cyrraedd tref a risgiau'r Rhyl o fewn y safon cyrraedd 30 munud petai peiriant y Rhyl yn cael ei dynnu oddi yno. Nid felly y byddai gyda'r ardaloedd i'r de o'r Rhyl yn nyffryn Clwyd sy'n cynnwys Llanelwy a Dinbych, ac sydd ar hyn o bryd o fewn dalgylch peiriant y Rhyl.

10 Byddai modd cyrraedd Llandudno a'r rhan fwyaf o'r ardal sydd o fewn dalgylch y peiriant sydd yn Llandudno ar hyn o bryd o fewn y safon 30 munud o'r Rhyl a Bangor. Dyma'r unig un o'r lleoliadau cyfredol sydd o fewn dalgylchoedd y ddau leoliad arall.

11 Gwestai yw'r risgiau yn ardal Llandudno yn bennaf, ac mae'r rheini'n cael eu rheoleiddio ac yn agored i archwiliadau dan y

Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, neu fflatiau pwrpasol wedi eu hadeiladu dan ofynion llym y Rheoliadau Adeiladu. Mae'r ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gael darpariaeth ar gyfer dianc o dân mewn adeiladau o'r fath heb gymorth allanol.

12 O blith y pedwar peiriant cyfredol, Bangor a Wrecsam sydd wedi cael y nifer uchaf o droeon pryd y cawsant eu defnyddio mewn digwyddiadau.

13 Peiriant Llandudno a ddefnyddiwyd mewn digwyddiadau y nifer leiaf o droeon.

14 Peiriannau ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam a allai ddarparu'r gofal ehangaf o ran poblogaeth a risgiau trwy Ogledd Cymru o fewn y safon cyrraedd 30 munud.

15 Bydd gwybodaeth ystadegol ategol ar gael yn y cyfarfod.

16 Yn y cyfarfod ar 6ed Chwefror, cafodd yr Aelodau wybod y byddai argymell pa bynnag leoliad yn sicr o arwain at feirniadaeth fod y gymuned yn ei gweld ei hun yn colli peiriant. Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa bod ganddynt ddyletswydd i wasanaethu'r Awdurdod Tân ac Achub a lles yr holl gymunedau o fewn ei ardal ddaearyddol wrth ddod i benderfyniad ar y cyd.

17 Ers penderfyniad y Panel Gweithredol, mae'r Prif Swyddog Tân wedi derbyn 12 eitem o ohebiaeth gan:-

- Chwe aelod o'r cyhoedd, sy'n cynnwys 2 eitem gan 1 cwpl
- Mae chwech gan gadeiryddion fforymau neu gynghorwyr, fel isod:
  - Cymdeithas Lletygarwch Llandudno
  - Partneriaeth Datblygu Llandudno
  - Y Cynghorydd Janet Finch-Saunders AC
  - Guto Bebb, Aelod Seneddol Aberconwy
  - Maer Llandudno ar ran Cyngor Tref Llandudno

- Cadeirydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

18 Mae trawsgrifiadau o phob llythyr a ddaeth i law yn Atodiad FRA3.

19 Hefyd, cafwyd sylw i'r mater yn y cyfryngau lleol, mewn print ac ar-lein. Mae hyn wedi cynnwys ymgyrch gan North Wales Weekly News, a deiseb ar y we wedi ei chreu gan Faer Llandudno. Roedd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Paul Claydon wedi trefnu i fynd i gyfarfod Cyngor Tref Llandudno ar 13eg Mawrth 2012. Mae hyn yn dilyn cynnig gan y Gwasanaeth i ddarparu rhagor o wybodaeth am y mater. Gwnaed cynnig tebyg i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, ond gwrthodwyd hynny gan ei Gadeirydd.

**Argymhelliad**

20 Bod yr Aelodau'n cytuno ar leoliad y Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr yn y dyfodol fel yr argymhellwyd gan y Panel Gweithredol, sef ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam fel yr opsiwn gyda'r lleiaf o risg neu:-

21 Bod yr Aelodau'n cytuno ar leoliad gwahanol i'r tri Pheiriant Ysgol ac Esgynlawr.